# Gwasanaeth Theatr a Chelfyddydau CBS Caerffili

## Sefydliad y Glowyr, Coed Duon

## Pecyn Gwybodaeth Llogi am Berfformiadau

Mae Sefydliad y Glowyr, Coed Duon, yn theatr broffesiynol sy'n cyflwyno amrywiaeth o ddigwyddiadau adloniant a chelfyddydol.  Mae'r adeilad hanesyddol yn rhoi'r cyfle i gynulleidfaoedd brofi theatr, dawns a cherddoriaeth fyw o'r radd flaenaf ar garreg eu drws yn ogystal â chefnogi sefydliadau'r gymuned leol.  Mae'r theatr hefyd yn darparu ystod eang o weithdai a dosbarthiadau cyfranogol yn ogystal ag arddangosiadau am ddim yn yr ardal oriel gyhoeddus.

Mae'r theatr amlddefnydd gyda seddi y gellir eu tynnu'n ôl yn cynnig hyblygrwydd i gynyrchiadau o unrhyw faint.  Gyda staff gwybodus a phroffesiynol yn barod i'ch helpu, gellir dibynnu ar Sefydliad y Glowyr, Coed Duon, i ddarparu profiad unigryw a difyr i'ch cwmni a'ch cynulleidfa.

*Yr hyn y gallwn ei gynnig:*

- *Awditoriwm theatr fawr am hyd at 419 person (lle i 550 sefyll).  Mae hefyd gan y theatr system seddi y gellir ei haddasu sy'n caniatáu i berfformiadau gael eu cynnal ar y llwyfan neu ar y llawr er mwyn cael profiad mwy clyd.*
- *Ardal bar stiwdio hyblyg y gellir ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau, digwyddiadau a pherfformiadau amrywiol gyda lle i hyd at 200 person.*
- *Mae'r ddwy ardal wedi'u cyfarparu'n llawn â systemau sain, cerddoriaeth a golau yn ogystal â'r cyfleuster i ddarparu tafluniad digidol.*
- *Mynediad i'r rhyngrwyd diwifr ar gael ledled y Sefydliad (wedi'i ddiogelu gan gyfrinair)*
- *Ystod lawn o gyfarpar clyweledol gyda cymorth technegol.*
- *Cymorth marchnata proffesiynol ar gael*
- *Mae gwerthu tocynnau a nwyddau yn cael ei wneud trwy ein system swyddfa docynnau cyfrifiadurol, ar-lein.*
- *Stiwardiau a hebryngwyr proffesiynol sy'n sicrhau cysur, diogelwch a lles eich dirprwyon*
- *Cyfleusterau parcio cyfyngedig - nodwch fod mannau parcio yn gyfyngedig iawn a chânt eu dyrannu ar gais yn unig.*

***Nodyn ar TAW -** Gall llogi theatr neu leoliad gael ei **EITHRIO** o **TAW** yn unig pan mai **defnydd yr adeilad yw'r unig gyflenwad**, er enghraifft, ystafell heb gyfarpar na chymorth ychwanegol. Pan ddarperir gwasanaethau eraill, er enghraifft, darparu technegwyr goleuadau, gwasanaethau swyddfa docynnau, neu unrhyw gyfarpar arall ac ati, mae hyn yn golygu cyflenwad unigol o wasanaethau trethadwy a rhaid ychwanegu TAW ar y gyfradd safonol.

## Ardaloedd i'w Llogi

### Theatr

Mae llogi'r theatr yn cynnwys:

- *Prif lwyfan wedi'i chyflwyno fel bocs du*

- *Un Technegydd llwyfan un pwrpas*
- *Awditoriwm gyda threfn seddi llawn, trefn seddi ar ei hanner neu le sefyll yn unig*
- *Pedair ystafell newid hollol hygyrch*
- *Staff blaen y tŷ yn unol â maint y digwyddiad*
- *Rig goleuo'r llwyfan cyfan â thri lliw sylfaenol*

**Bar stiwdio**

Mae llogi'r bar yn cynnwys:

- *Bar a gyflwynir gydag ardal perfformio bocs du*
- *Rig goleuo'r llwyfan cyfan â thri lliw sylfaenol*
- *Seddi wedi'u cynllunio o amgylch natur y digwyddiad ac anghenion y cynhyrchiad  Un technegydd un pwrpas*
- *Staff blaen y tŷ yn unol â maint y digwyddiad*

Noder: efallai y codir tâl ychwanegol am staff a chyfarpar ychwanegol

## Costau

**Theatr:**

**Y cyfnod llog byrraf ar gyfer y theatr yw galwad 4 awr, neu gyfradd ddydd o 8 awr**. Ond, os hoffech chi logi am hirach rydym yn gweithio ar fatrics cynyddrannol sy'n caniatáu disgownt os ydych yn llogi'r lleoliad am sawl diwrnod.

| | Cost y dydd | Oriau ychwanegol |
|---|---|---|
| 1 diwrnod* | £640 | £80 yr awr |
| 2 ddiwrnod | £576 | £72 yr awr |
| 3 diwrnod | £544 | £68 yr awr |
| 4 diwrnod | £512 | £64 yr awr |
| 5 diwrnod | £480 | £60 yr awr |
| 6 diwrnod | £448 | £56 yr awr |

**Bar:**

| | | |
|---|---|---|
| Galwad 4 awr - £160 | Cyfradd diwrnod* - £320 y diwrnod | Oriau ychwanegol - £40 yr awr |

Oherwydd yr amserlen yn ystod tymor yr ysgol mae'n anghyffredin bod y bar ar gael i'w logi am sawl diwrnod, ond cysylltwch â ni i drafod eich anghenion unigol.

*Mae pob diwrnod yn seiliedig ar alwad 8 awr. Nodwch, yn unol â rheoliadau Oriau Gwaith, mae gan staff hawl i egwyl wrth weithio mwy na 6 awr.

Codir tâl dwbl ar ddyddiau Sul a Gwyliau Banc

## Swyddfa Docynnau

Fel amod llogi am berfformiadau, rhaid gwerthu pob tocyn ar gyfer eich cynhyrchiad trwy ein swyddfa docynnau.

O Ragfyr 2015 ac yn unol ag ymarfer cyfredol y diwydiant ar gyfer theatrau a lleoliadau, codir ffi archebu o 50c y tocyn, sy'n cynnwys y gost a welir yn y pamffled. Mae'r ffi hon yn cyfrannu tuag at gynhyrchu tocynnau, prosesu archebion, gwella ein technoleg bresennol a pharhau i ddarparu gwasanaeth eithriadol i'n cwsmeriaid.

Rydym yn didynnu'r ffi hon cyn i'ch taliad swyddfa docynnau terfynol gael ei gynhyrchu ar ddiwedd eich cyfnod.

## Cymorth a Hyrwyddiad Marchnata

**Mae'r canlynol wedi'u cynnwys yn y taliadau llogi:**

Cael eich cynnwys yn y pamffled 'What's On' tymhorol**

Cael eich cynnwys ar wefan Sefydliad y Glowyr, Coed Duon**

**Yn amodol ar gyflwyno delwedd o ansawdd print a chopi (uchafswm o 50 gair) erbyn y dyddiadau cau priodol. Rydym yn cadw'r hawl i olygu delweddau a chopi'r pamffled.

Rydym yn gallu darparu lle ar gyfer posteri bach (A3 neu A4) a gall y rhain cael eu harddangos ar hysbysfwrdd y Sefydliad, yn amodol ar argaeledd lle.

Rydym hefyd yn cynnwys llogwyr mewn ymgyrch farchnata ar y Cyfryngau Cymdeithasol os yw'r llogwr yn darparu dolennau cyfryngau cymdeithasol i ni.

**Dyddiadau Cau'r Pamffled:**

| PAMFFLED TYMHOROL | DYDDIAD CAU |
|---|---|
| Pamffled y gwanwyn (Ion - Ebr) | 1 Hydref |
| Pamffled yr haf (Mai – Gor) | 1 Chwefror |
| Pamffled yr hydref/gaeaf (Medi - Ion) | 1 Mai |

## Llogi Gwasanaethau a Chyfarpar Ychwanegol

Rydym yn argymell eich bod yn cwrdd â'n staff er mwyn gweld y lle a thrafod eich gofynion technegol fel y gallwch weld y lle a gallwn lunio dyfynbris cywir ar eich cyfer chi.

**Goleuadau ychwanegol ar gyfer y Theatr neu'r Bar**
£ (pris i'w gadarnhau wrth ymholi) + TAW

**System Sain**
£ (pris i'w gadarnhau wrth ymholi) + TAW

**Sbotolau â gweithredwr**

£ (pris i'w gadarnhau wrth ymholi) + TAW

**Sbotolau heb weithredwr**
£ (pris i'w gadarnhau wrth ymholi) + TAW

**Goleuadau symudol**
£ (pris i'w gadarnhau wrth ymholi) + TAW

**Technegydd ychwanegol**
Lleiafswm o 5 awr - £12 yr awr + TAW

**Piano cyngerdd bach Petrof a thiwnio**
£70 + TAW

**Taflunydd digidol a sgrin**
I'w ddefnyddio yn y Theatr (4500 lumin) - £150 + TAW
I'w ddefnyddio yn y Bar (XXX Lumin) - £50 + TAW

**Meicroffonau radio**
Defnydd pen uchaf £50 + TAW (Shure)
Defnydd sylfaenol £30 + TAW (Trantec)

**Effeithiau arbennig (e.e. peiriant niwl)**
£ (pris i'w gadarnhau wrth ymholi) + TAW

**Dec dur (8 troedfedd x 4 troedfedd) a staff i'w adeiladu**
£ (pris i'w gadarnhau wrth ymholi) + TAW

***Cadeiriau x 10**
£10 y dydd + TAW

***Byrddau crwn sy'n eistedd 10 person (heb orchudd)**
£10 y dydd + TAW

***Byrddau crwn sy'n eistedd 10 person (gyda gorchudd)**
£15 y dydd + TAW

***Byrddau trestl**
£10 y dydd + TAW

Os oes angen unrhyw cyfarpar arnoch sydd ddim ar y rhestr, yna cysylltwch â ni.

**Ar gael i'w llogi oddi ar y safle yn amodol ar argaeledd*

Nodwch fod yn rhaid i unrhyw offer trydanol a ddygir ar y safle fod ag ardystiad prawf perthnasol a chyfoes.

Nodwch os oes gennych unrhyw blant o dan 16 oed sy'n perfformio yn eich sioe, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eu bod wedi'u trwyddedu'n addas. Mae Sefydliad y Glowyr, Coed Duon, yn cadw'r hawl i ofyn am gopïau o unrhyw drwyddedau, neu dystiolaeth o unrhyw eithriadtrwydded.

Hefyd, disgwylir i chi ddarparu goruchwyliaeth addas cefn llwyfan ar gyfer unrhyw blant sy'n perfformio. Os yw hyn yn cynnwys hebryngwyr, sicrhewch fod eich hebryngwyr â thrwydded addas.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-08/cadw-perfformwyr-ifanc-yn-ddiogel-canllawiau-i-gyd-fynd-a-rheoliadau-2015-ar-gyfer-perfformiadau-plant.pdf

## Cysylltwch â ni

Os oes angen ragor o wybodaeth arnoch ynglŷn â llogi Sefydliad y Glowyr, Coed Duon, neu os hoffech archebu lle, cysylltwch â:

Sefydliad y Glowyr, Coed Duon
Y Stryd Fawr
Coed Duon
NP12 1BB 01495 224425
SefydliadyGlowyrCoedDuon@caerffili.gov.uk

www.blackwoodminersinstitute.com